Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Rheoli Datblygu** a gynhaliwyd yn hybrid ar **ddydd Mercher, 17 Ionawr 2024**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr, Marc Davies, Meirion Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Ceris Jones, Gareth Lloyd, Chris James, Sian Maehrlein a Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol**: Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu),Mr Jonathan Eirug- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – Gogledd, Mrs Sian Holder- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De, Mrs Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau

(10:00am-11:30pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Gwnaeth y Cynghorydd Raymond Evans, Maldwyn Lewis a Mark Strong ymddiheuro am fethu mynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiant Personol a / neu sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**3 Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

**Materion yn codi**

Dim.

**5 Ceisiadau cynllunio a gafodd eu gohirio yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**

Dim.

---

**6 Datblygu, Hysbysebu, Ceisiadau Awdurdod Lleol a Statudol**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio ar ddatblygiad, hysbysebu; ceisiadau cynllunio statudol ac awdurdodau lleol:-

Anerchodd Mr Jason Evans (asiant ar gyfer y gwrthwynebwyr) a Mr Geraint John (asiant yr ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A220711 Cais llawn ar gyfer datblygiad preswyl sy'n cynnwys 5 x fflat hunangynhwysol 2 ystafell wely, ar dir wrth ymyl y Marina, Aberystwyth

CYFEIRIO'r cais at y Panel Arolygu Safle yn unol â Pharagraff 4 o feini prawf mabwysiedig y Cyngor.

---

A230527 Datblygu 18 uned fasnachol defnydd hyblyg (Defnyddiau B1, B2 a B8 o'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd, gan gynnwys cownteri masnach) ar ffurf dau adeilad, Plot C2 Parc Teifi, Aberteifi

I **GYMERADWYO** yn ddibynnol ar amodau

---

Anerchodd Mrs Helen Rowlands a Ms Rhiannon Sanders (Gwrthwynebwyr) a Mr Andrew Vaughan Harries (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A230561 Dymchwel arfaethedig yr annedd bresennol ac adeiladu annedd newydd arfaethedig a'r holl waith cysylltiedig; Tŷ y Traeth, Cae Dolwen, Aberporth, Aberteifi

Cyfeirio'r cais at y Panel Arolygu Safle yn unol â Pharagraff 4 o feini prawf mabwysiedig y Cyngor.

---

**7 Ceisiadau Cynllunio sy'n cael eu trin gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio:-**

PENDERFYNWYD nodi'r amserlen o geisiadau cynllunio yr ymdriniwyd ag Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio.

**8 Apeliadau Cynllunio**

Heb dderbyn dim.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2024**

**Cadeirydd:-**___________________

**Dyddiad:________________**